ATODLEN 2

CYFRANIAD Y MYFYRIWR

# RHAN 1

## Dehongli

**1.**—(1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "Aelod-wladwriaeth" ("*Member State*") yw un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis y mae incwm person, y mae ei incwm gweddilliol yn cael ei gyfrifo o dan ddarpariaethau Rhan 2 o'r Atodlen hon, yn cael ei gyfrifo mewn cysylltiad ag ef at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm sy'n gymwys iddo;

ystyr "blwyddyn ariannol flaenorol" ("*preceding financial year*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n union o flaen y flwyddyn berthnasol;

ystyr "blwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw'r flwyddyn academaidd y mae incwm yr aelwyd i'w asesu mewn cysylltiad â hi;

mae i "Gwladwriaeth yr AEE" ("*EEA State*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 1;

ystyr "incwm gweddilliol" ("*residual income*") yw incwm trethadwy ar ôl cymhwyso paragraff 3 (yn achos myfyriwr cymwys) a pharagraff 4 (yn achos partner myfyriwr);

ystyr "incwm trethadwy" ("*taxable income*"), mewn perthynas â pharagraff 3, mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y gwneir cais am gymorth ar ei chyfer ac, mewn perthynas â pharagraff 4, (yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3), (4) a (5) o baragraff 4) mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol flaenorol, yw incwm trethadwy person o bob ffynhonnell wedi'i gyfrifo fel pe bai at ddibenion—

(a) y Deddfau Treth Incwm;

(b) deddfwriaeth treth incwm un o Aelod-wladwriaethau eraill yr AEE neu'r Swistir sy'n gymwys i incwm y person;

(c) os yw deddfwriaeth mwy nag un o Aelod-wladwriaethau'r AEE neu o un o Aelod-wladwriaethau'r AEE a'r Swistir yn gymwys i'r cyfnod, y ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y bydd y person yn talu'r swm mwyaf o dreth oddi tani yn y cyfnod hwnnw (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 4),

ac eithrio na wneir cyfrif o'r incwm y cyfeirir ato yn is-baragraff (2) a dalwyd i barti arall.

mae i "incwm yr aelwyd" ("*household income*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 2;

ystyr "partner" ("*partner*") mewn perthynas â myfyriwr cymwys yw unrhyw un o'r canlynol—

(i) priod y myfyriwr cymwys;

(ii) partner sifil y myfyriwr cymwys;

(iii) person sydd fel arfer yn byw gyda'r myfyriwr cymwys fel pe bai'n briod â'r myfyriwr os yw'r myfyriwr cymwys yn 25 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn berthnasol a'i fod yn cychwyn ar y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2000;

(iv) person sydd fel arfer yn byw gyda'r myfyriwr fel pe bai'r person hwnnw'n bartner sifil i'r myfyriwr os yw'r myfyriwr cymwys yn 25 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn berthnasol a'i fod yn cychwyn ar y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2005;

ystyr "rhiant" ("*parent*") yw rhiant naturiol neu riant mabwysiadol a dehonglir "plentyn" ("*child*"), "mam" ("*mother*") a "tad" ("*father*") yn unol â hynny.

(2) Yr incwm y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwn yw unrhyw fudd-daliadau o dan drefniant pensiwn yn unol â gorchymyn a wnaed o dan adran 23 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973(**1**) sy'n cynnwys darpariaeth a wnaed yn rhinwedd adrannau 25B(4) a 25E(3) o'r Ddeddf honno neu fudd-daliadau pensiwn o dan Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**2**) sy'n cynnwys darpariaeth a wnaed yn rhinwedd Rhannau 6 a 7 o'r Atodlen honno.

(**1**) 1973 c. 18; diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 (p.53), adran 18. Mewnosodwyd adran 25B gan Ddeddf Pensiynau 1995 (p.26), adran 11 (1) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Pensiynau a Diwygio Lles 1999 (p.30), Atodlen 4. Mewnosodwyd adran 25E gan Ddeddf Pensiynau 2004 (p.35), adran 319(1), Atodlen 12, paragraff 3.

(**2**) 2004 c. 33, addaswyd paragraff 25 o Atodlen 5 gan O.S. 2006/1934.